# LLAWLYFR A DATGANIAD O DDIBEN: GWYBODAETH I RIENI A GWARCHODWYR

# *HANDBOOK AND STATEMENT OF PURPOSE: INFORMATION FOR PARENTS AND GUARDIANS*


Caban Clyd
Cylch Meithrin Y Felinheli
Buarth Ysgol Y Felinheli
Y Felinheli
LL56 4TZ

07735 749799 (Cylch)
01248 670748 (Ysgol / *School)*


post@cylchmeithrinfelinheli.org

www.cylchmeithrinfelinheli.org

Cylch Meithrin Y Felinheli



Rhif elusen / *Registered Charity no*: 1094577




**Staff**

| | |
|---|---|
| Arweinydd / *Leader* | Anneka Williams |
| *Is-Arweinydd / Deputy Leader* | Samantha Roberts |
| Cynorthwywyr / *Assistants* | Susan Williams<br>Danielle Burke |

**Pwyllgor / *Committee***

| | |
|---|---|
| Cadeirydd / *Chair* | Catrin Elis |
| Ysgrifenyddes / *Secretary* | Jess Roberts |
| Trysorydd / *Treasurer* | Charles Roberts / Emily Evans |

**Personau Cofrestredig / *Registered Persons***

Ceri Rhiannon
Catrin Elis

Fe allwch gysylltu â'r pwyllgor trwy anfon neges e-bost i post@cylchmeithrinfelinheli.org
*Committee members can be contacted by e-mailing post@cylchmeithrinfelinheli.org*

**Amseroedd agor / *Opening times***
Llun – Gwener / *Monday – Friday*

Plant 2 ½ hyd oedran ysgol / *2 ½ year olds to school age*
1:30pm – 3:30pm

Plant Meithrin (3+ oed cyn mis Medi) / *Meithrin Children (3+ years old before September)*
10:45am – 1pm neu

Gofal cofleidiol (3+ oed) / *Wrap-around (3+ years old)*
10.45am – 3.30pm
(Nifer penodol o lefydd / *Limited spaces available)*

**NODER: MAE GWYBODAETH AM GANLLAWIAU A PHOLISÏAU CORONAFEIRWS Y CYLCH AR GAEL AR EIN GWEFAN: http://cylchmeithrinfelinheli.org/covid-19.html**

**PLEASE NOTE: INFORMATION ABOUT THE CYLCH'S CORONAVIRUS GUIDANCE AND POLICIES IS AVAILABLE ON OUR WEBSITE: http://cylchmeithrinfelinheli.org/covid-19.html**

## DATGANIAD O DDIBEN

Mae Cylch Meithrin Y Felinheli yn aelod o'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Ein prif nod yw cynnig gwasanaeth i bob plentyn dros ddwy a hanner oed hyd oedran ysgol sy'n byw yn Y Felinheli a'r dalgylch. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig profiad addysgiadol a hwyliog i'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Cylch yn derbyn arolwg AGC ac Estyn yn rheolaidd. Mae copi o'r adroddiadau ar gael yn y Caban. Mae'r Cylch yn cydymffurfio ag amodau cofrestru yr AGC ac o ganlyniad 19 plentyn yw'r uchafswm all fod ym mhob sesiwn.

**Rydym yn adolygu'r Datganiad o Fwriad yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r gwasanaeth gaiff ei gynnig.**

## *STATEMENT OF PURPOSE*

*Cylch Meithrin Y Felinheli is a member of Mudiad Ysgolion Meithrin. Our aim is to provide service to all children aged two and a half up to the age they start school, living in Y Felinheli or surrounding areas. This service offers early years educational and fun opportunities through the medium of Welsh, and follows the Foundation Phase curriculum.*

*The Cylch regularly receives CIW and Estyn inspections, copies of the reports are available in the Cylch.*

*The Cylch complies with all aspects of the requirements of CIW, therefore only 19 children will be in each session.*

***The Statement of Purpose is reviewed annually to ensure that it accurately reflects the services we provide.***








## CYFLE CYFARTAL / *EQUAL OPPORTUNITY*

Mae pob agwedd o'n gweithgareddau yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae hyn yn cynnwys mynediad i weithgareddau, triniaeth gyfartal a pharch tuag at bob unigolyn.

*Every aspect of our activities promotes equal opportunities for each individual. This includes access to all activities, equal treatment and respect for every individual.*





## CYNHWYSIANT A CHYDRADDOLDEB / *INCLUSION AND EQUALITY*

Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn, beth bynnag eu anghenion, i fanteisio ar addysg cyn-ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r Cylch yn cydweithio â chynllun Cyfeirio Gwynedd ac asiantaethau eraill i roi cymorth a chefnogaeth i blentyn a'i deulu os oes angen.

*Our aim is to give every child, whatever his/her needs, the opportunity to benefit from Welsh medium pre-school education. The Cylch co-operates with Gwynedd Referral Scheme and other agencies to give help and support to the child and his/her family if required.*

# AMDDIFFYN PLANT / *CHILD PROTECTION*

Credwn bod hapusrwydd, diogelwch a ffyniant pob plentyn yn bwysig.

Mae'r Pwyllgor a staff y Cylch yn dilyn gweithdrefnau Pwyllgor Amddiffyn Plant y Rhanbarth mewn achosion o amheuaeth o gam-drin. Os bydd y staff yn credu bod plentyn yn cael ei gam-drin, byddant yn gweithredu drwy gysylltu â'r Person Cofrestredig neu/ac Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd. Os oes amheuaeth mai aelod o staff sydd yn cam-drin, yna bydd y Pwyllgor gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae staff y Cylch yn mynychu cyrsiau amddiffyn plant yn rheolaidd.



*We believe that the happiness, safety and well-being of each child is important.*

*The Cylch Management Committee and staff follow Area Child Protection Committee procedures in suspected cases of abuse. If the staff suspects that a child is being abused, they will take action by contacting the Registered Person or/and Gwynedd Council's Social Services Department. If there is suspicion of child abuse by staff, Committee members will contact Social Services.*

*The Cylch staff attend child protection courses regularly.*

# DERBYNIADAU / *ADMISSIONS*

- Derbynnir plant sydd yn ddwy a hanner a thair oed
- Mae’r Cylch wedi ei gofrestru i dderbyn 19 o blant, o dan ofynion AGC a lefelau staffio
- Mae’r Cylch ar agor am bum sesiwn bore a phum sesiwn brynhawn. Bydd yr arweinydd yn cadarnhau a oes lle i’r plentyn ar ôl derbyn ffurflen gofrestru wedi ei llenwi yn llawn a chytundeb wedi ei arwyddo. Bydd hyn yn cael ei benderfynu yn ôl y drefn ‘cyntaf i’r Felin’
- Mae’r Cylch yn cynnig gwasanaeth cofleidiol i nifer cyfyngedig (dros 3 oed)
- Mae gan y Cylch bolisi ynglŷn â phwy sy'n casglu'r plant. Ar ddiwedd y sesiwn caiff y plentyn ei drosglwyddo i'r sawl a enwir ar y ffurflen gofrestru yn unig
- Bydd rhaid cael llun o'r unigolion sy'n casglu'r plentyn o’r Cylch ar y ffurflen gofrestru
- Bydd y trysorydd yn paratoi anfoneb ac bydd disgwyl iddo gael ei dalu yn brydlon trwy siec neu yn syth i gyfrif banc y Cylch
- Rydym wedi cofrestru am ofal plant am ddim o dan y cynllun peilot 30 awr ar gyfer plant sesiynau bore a gofal cofleidiol. Unwaith y bydd plentyn yn dair oed mae'r tymor llawn sy'n dilyn am ddim, os yw eich cais yn cael ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd





- Children are accepted from the age of two and a half
- We are registered to accept up to 19 children on the premises in one session, according to CIW standards with regards to staffing levels.
- The Cylch is open five mornings and five afternoons. The Cylch leader will confirm if there is space for the child in the session following full completion of the registration form and receipt of a signed contract. This will be decided o a ‘first come first serve’ basis
- A wrap-around service is available for a limited number (over 3 years old)
- The Cylch has a strict policy regarding collection of the children. At the end of each session the child will be released only to the named persons on the registration form
- There must be a picture of each person with the right to collect the child on the registration form
- The treasurer will prepare an invoice for the sessions your child attends and the fees must be paid promptly by cheque or bank transfer
- We are registered for the free 30 hour childcare scheme for children attending the morning session and wrap-around. Once a child is three the next full term is free, if your application has been accepted by Gwynedd Council

# STAFFIO / *STAFFING*

Pwyllgor Rheoli y Cylch Meithrin sydd yn gyfrifol am benodi, cyflogi a diswyddo staff y Cylch. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd uchel yn cael ei gynnig trwy annog staff i fynd ar gyrsiau hyfforddi, a thrwy benodi staff â phrofiad helaeth mewn gofal plant a meysydd perthnasol. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod aelodau o staff a benodir a threfniadau staffio'r Cylch yn cydymffurfio â gofynion Arolygaeth Gofal Cymru (AGC). Byddent hefyd yn sicrhau bod gan yr holl staff a benodir gymwysterau cydnabyddedig mewn gofal ac addysg plant a phrofiad perthnasol. Mae'r staff canlynol yn gweithio yn y Cylch:

- Anneka Williams – Arweinydd – Cymhwyster Lefel 4 – Addysg lefel uwch a Diploma Lefel 3 yn y blynyddoedd cynnar
- Samantha Roberts – Is-Arweinydd – NVQ Lefel 3 mewn Gofal a Datblygiad Plant
- Susan Williams – Cymhorthydd – NVQ Lefel 3 mewn Gofal a Datblygiad Plant
- Danielle Burke – Cymhorthydd – NVQ Lefel 3 mewn Gofal a Datblygiad Plant

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi unrhyw adborth am staff y Cylch – anfonwch neges e-bost i post@cylchmeithrinfelinheli.org










*The Cylch's Management Committee is responsible for appointing, employing and dismissing Cylch staff. The Committee will ensure that a high standard is maintained by promoting staff training and employing staff experienced in childcare and other relevant experiences. We will ensure that the standards specified by the Care Inspectorate Wales (CIW) are adhered to.*

*The following staff work in the Cylch:*

- *Anneka Williams - Leader - Level 4 qualification - Higher level education A level 3 Diploma in the early years*
- *Samantha Roberts – Deputy Leader - NVQ Level 3 in Child Care and Development*
- *Susan Williams - Assistant - NVQ Level 3 in Child Care and Development*
- *Danielle Burke - Assistant - NVQ Level 3 in Child Care and Development*

*The Committee welcomes any feedback about the Cylch's staff – please e-mail post@cylmeithrinfelinheli.org with your feedback.*

# MEYSYDD DYSGU / *AREAS OF LEARNING*

Cymraeg yw prif iaith y Cylch. Bydd yr arweinydd yn cynllunio a threfnu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau fydd yn cyflwyno'r meysydd dysgu isod:

| | |
|---|---|
| **Y Byd o'n Cwmpas** | Dysgu am wledydd tramor a'r amgylchedd |
| **Datblygiad Creadigol** | Chwarae dychmygol, peintio, chwarae efo dŵr, tywod a chlai |
| **Datblygiad Corfforol** | Dringo, torri papur gyda siswrn, taflu a dal pêl, reidio beic, symud i gerddoriaeth ac yn y blaen |
| **Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu** | Storïau, canu, adrodd, ysgrifennu |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol** | Glendid personol, cymdeithasu, rhannu, dangos parch a gofal |
| **Rhifyddeg a rhigymau** | Gwneud patrymau, chwarae gemau, dysgu rhigymau a rhifo |

*Teaching at the Cylch is mainly through the medium of Welsh. The leader of the Cylch plans and arranges a variety of activities and experiences which introduce and promote the following areas of learning:*

| | |
|---|---|
| ***The world around us*** | *Learning about other countries and the environment* |
| ***Creative Development*** | *Imaginative play, painting, water, sand play and clay.* |
| ***Physical development*** | *Climbing, cutting with scissors, throwing and catching a ball, riding a bike and moving to music* |
| ***Language, literacy and communication*** | *Stories, singing, reciting and writing* |
| ***Personal and social development*** | *Personal hygiene, socialising, sharing, care and respect* |
| ***Mathematical development*** | *Create patterns, play board games, sing 'number' songs* |


# ADNODDAU / *RESOURCES*

Yn ystod pob sesiwn caiff y plant nifer o brofiadau gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau. Mae’r gweithgareddau yn cael eu cynnal mewn ardaloedd tu mewn a thu allan i'r caban, er mwyn hybu datblygiad y plant ymhellach. Mae yna dŷ bach twt, i-pads, ystod o flociau adeiladu, teganau fferm/o dan y môr/dinosoriaid ayb, dillad gwisg ffansi, clai, paent, offer creu marciau, parasiwt, beiciau a llawer mwy. Yn y caban mae ystafell fawr i'r plant chwarae, dau doilet bach ac un toilet anabl.

*During each session the children enjoy a variety of experiences by using a range of resources. These experiences take part indoors and out, in an environment that has been created in order to promote each child’s development. There is a playhouse, i-pads, a wide range of building blocks, farm/under the sea/dinosaur toys etc, fancy dress, clay, paint, mark making, parachute, bikes and much more. The cabin has one large room for the children to play, two small toilets and one disabled toilet.*

# EIN GARDD / *OUR GARDEN*

Yng ngwanwyn 2019 cwblhawyd ein prosiect cyffrous i drawsnewid yr ardal chwarae tu allan i’r Cylch, gan gynnig adnoddau newydd yn amrywio o gwch chwarae pren, cegin, wal gerddoriaeth a wal ddŵr – a llawer mwy! Ymdrechion codi arian staff ac aelodau’r Pwyllgor oedd yn llwyr gyfrifol am ariannu’r prosiect, a chafwyd gyfraniadau gan wirfoddolwyr, crefftwyr a busnesau lleol. Mae’r prosiect gwych hwn yn cael ei ddefnyddio gan y Mudiad Meithrin, Cyngor Gwynedd a sawl corff arall fel enghraifft o arfer gorau o’r hyn y mae modd ei gyflawni i gylchoedd eraill, ac mae sawl Cylch yn awyddus i ddod i weld yr adnoddau ac i ddysgu mwy am y prosiect hynod lwyddiannus hwn.




*In Spring 2019 our hugely exciting project to transform the play area outside the Cylch was completed, which now includes new facilities ranging from a wooden play boat, kitchen, music wall, water wall – and much more! The project was funded entirely by fundraising efforts from staff and Committee members, and contributions were made by local volunteers, tradespeople and businesses. This fantastic project is used by Mudiad Meithrin, Cyngor Gwynedd and many other bodies as an example to other establishments of best practice and of what can be achieved. Many similar groups are eager to visit the facility and learn more about this extremely successful project.*

# AMLINELLIAD O SESIWN / *OUTLINE OF SESSION*

Gosodir amrywiaeth o weithgareddau gwahanol megis peintio, tywod, clai, tŷ bach twt, gemau jigsô, ceir bach a mawr, fferm, gwaith llaw, lliwio a choginio. Mae’r plant yn cael diod a ffrwyth,* a gorffennir y sesiwn trwy gyd-ganu caneuon. Yna byddwn yn rhannu cotiau, a phawb yn rhoi cynnig ar wisgo eu cotiau ei hunain.

*Mewn achosion arbennig, gall bwydydd eraill gael eu cynnig. Cymerir sylw o unrhyw anghenion dietegol arbennig sydd gan eich plentyn sy’n cael ei nodi ar y ffurflen gofrestru.





*We offer a variety of activities, including painting, sand, clay, playhouse, games, jigsaws, cars, farm, arts and crafts, colouring and cooking. The children are given a drink and some fruit* and the session ends by singing various songs. Before going home each child is encouraged to wear their own coat.*

**In special circumstances other food may be offered. Attention will be given to any special dietary requirements in accordance with information given on the registration form.*

# COFNODION AC ADRODDIADAU / *RECORDS & REPORTS*

Bydd yr arweinydd yn cofnodi a darparu adroddiad ar gynnydd a datblygiad bob plentyn. Bydd cofnod parhaus o ddatblygiad pob plentyn yn cael ei gadw ar ffeil ac mi fydd yr arweinydd yn ysgrifennu adroddiadau tymor a threfnu noson rieni yn flynyddol.

*The leader will record and prepare reports on each child's progress and development. A continuous developmental report will be kept on file for each child and the leader will be creating a report at the end of each term and organising a yearly parents evening.*









# YMDDYGIAD / *BEHAVIOUR*

Rydym yn gweithredu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad. Os bydd ymddygiad eich plentyn yn achosi gofid, byddwn yn trafod y sefyllfa gyda chi, ac yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd, i'w ddefnyddio yn y Cylch ac yn y cartref. Gellir gweld copi o'r polisi llawn yn y Cylch Meithrin neu ar y wefan.

Rydym yn gweithredu cynllun “Cai a Mai” ar sut i reoli ymddygiad yn y Cylch. Gallwch gael sgwrs gyda’r arweinydd am fwy o wybodaeth am y cynllun.

*We implement positive methods to control behaviour. If your child's behaviour causes concern, we will discuss the situation with you and develop an action plan together, to be used in the Cylch and at home. A copy of the complete policy can be seen in the Cylch Meithrin.*

*We use the “Cai a Mai” training plan when dealing with behaviour issues within the Cylch. You can discuss more about this with the leader of the Cylch.*

# IECHYD, DIOGELWCH A LLES / *HEALTH, SAFETY AND WELLBEING*

Gwneir popeth o fewn rheswm i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y Cylch. Bydd pob plentyn yn cael ei yswirio rhag damweiniau dan gynllun yswiriant y Mudiad Meithrin. Gofynnir i rieni beidio dod â chŵn i mewn i dir yr ysgol am resymau iechyd a diogelwch. Mae gan yr ysgol a Chyngor Gwynedd bolisi gwahardd ysmygu yn ystafelloedd dosbarth, neuadd a mannau cyhoeddus ysgolion gan gynnwys yr iard a'r cae chwarae.

*Every reasonable practical step is taken to ensure the health and safety of everyone in the Cylch. All children are insured against accidents by the Mudiad Meithrin insurance policy. Parents are requested not to bring dogs on to the school premises in order to ensure the children's health and safety. Gwynedd schools and Council have a policy to prohibit smoking in classrooms, halls and public places in schools, including the playgrounds.*

# BWYTA'N IACH / *HEALTHY EATING*

Mae Cylch Meithrin Y Felinheli yn ran o gynllun Ysgolion Iach, felly rydym yn gofyn yn garedig i chi sicrhau bod cynnwys bocs bwyd eich plant yn iachus. Bydd plant sydd yn mynychu'r sesiynau 10.45 – 1 yn cael dewis o focs bwyd neu ginio ysgol.

*Cylch Meithrin Y Felinheli is part of the Healthy Schools programme, therefore we kindly ask parents to only include healthy foods in lunch boxes. Children attending the 10.45 – 1 are given a choice of either bringing thei rown lunchbox or school dinners.*

# RHOI MEDDYGINIAETH I BLENTYN / *GIVNG A CHILD MEDICATION*

Ni roddir meddyginiaeth i blentyn yn y Cylch oni bai ei fod wedi ei roi ar bresgripsiwn gan feddyg. Os bydd angen moddion/ffisig ar eich plentyn yn ystod y Cylch, gofynnir i chi lenwi ffurflen 'Cais i roi meddyginiaeth i blentyn' ynghyd â ffurflen wedi'i llofnodi gan feddyg. Gellir cael y ffurflen gan arweinydd y Cylch.

*Medication will not be administered to a child in the Cylch unless it has been prescribed by a doctor. If your child needs to be given medicine during a Cylch session, you are asked to complete a 'Request to administer medication to a child' form and also a form signed by a doctor.*

# NEWID CLWT A DAMWEINIAU / *NAPPY CHANGING AND ACCIDENTS*

Mae croeso i bob plentyn ddod i'r Cylch, ond os bydd y plentyn yn gwisgo clwt bydd gofyn i riant ddod i'w newid os bydd y plentyn yn baeddu. Os yw'r plentyn yn cael damwain baeddu yn ystod eu cyfnod yn y Cylch byddwn yn cysylltu â'u rhieni ddod i'w newid.

*We welcome all children at the Cylch, however if your child is still in nappies we will ask parents to come and change the child if they fill their nappy. If a child has soiled themselves during the session we will contact the parents to come and change the child.*










## CYFNOD GWAHARDD OHERWYDD SALWCH / *EXCLUSION PERIODS DUE TO ILLNESS*

| | |
|---|---|
| **Brech yr ieir** | Am bum diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos |
| **Y clefyd crafu** | Nes y caiff ei drin |
| **Clwy'r dwylo y traed a'r genau** | Dim |
| **Clwy'r pennau** | Am bump diwrnod ar ôl i'r chwarennau chwyddo |
| **Dolur rhydd a chwydu** | Tan y bydd 48 awr wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i'r plentyn ddioddef o ddolur rhydd neu daflu i fyny |
| **Y dwymyn goch** | Am bump diwrnod ar ôl cychwyn cymryd gwrthfiotigau |
| **Edeulyngur** | Dim |
| **Y Frech goch** | Am bump diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos |
| **Hepatitis A** | Gwaherddir plant bach am saith diwrnod ar ôl i'r clwyf melyn ymddangos. Nid oes angen gwahardd plant hŷn ac oedolion sy'n cynnal safon dda o hylendid |
| **Impetigo** | Hyd nes y bydd y clwyfau wedi gwella neu wedi ffurfio crachen |
| **Llid yr amrannau/Conjynctifitis** | Dim |
| **Y Pas (pertwsis)** | Am bump diwrnod ar ôl cychwyn cymryd gwrthfiotigau |
| **Rwbela (brech goch yr Almaen)** | Am bump diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos |
| **Tarwdenni** | Nes yn derbyn triniaeth |
| **Twbercwlosis** | Bydd yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy yn cynghori ynghylch y camau sydd angen eu cymryd |

---

| | |
|---|---|
| ***Chicken pox*** | *For 5 days after rash appears* |
| ***Scabies*** | *Until treated* |
| ***Hand, foot and mouth*** | *None* |
| ***Mumps*** | *For 5 days after onset of swollen glands* |
| ***Diarrhoea and vomiting*** | *Until 48 hours after the last episode of diarrhoea or vomiting* |
| ***Scarlet fever*** | *For 5 days after commencing antibiotics* |
| ***Threadworms*** | *None* |
| ***Measles*** | *For 5 days after rash appears* |
| ***Hepatitis A*** | *Exclude young children for 7 days after onset of jaundice. There is no need to exclude older children and adults with good hygiene* |
| ***Impetigo*** | *Until lesions are crusted or healed* |
| ***Conjunctivitis*** | *None* |
| ***Whooping cough (pertussis)*** | *For 5 days after commencing antibiotics* |
| ***Rubella (German measles)*** | *For 5 days after onset of the rash* |
| ***Ringworm*** | *Until treatment is started* |
| ***Tuberculosis*** | *CCDC will advise on necessary action* |

# SUT ALLWCH CHI GEFNOGI'R CYLCH? / *HOW TO SUPPORT THE CYLCH?*

Gofynnwn i chi wneud taliadau yn brydlon, gan mai dyma sy'n cyflogi y staff. Os na fydd taliad wedi ei wneud o fewn pythefnos byddwn yn cynnig lle eich plentyn i blentyn arall sydd ar y rhestr aros. Gofynnwn i chi ollwng eich plentyn dim mwy na 5 munud yn gynnar a'i gasglu yn brydlon, os gwelwch yn dda.

Pan drefnir gweithgareddau codi arian tuag at gynnal y Cylch Meithrin, gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad neu gymorth gan rieni. Mae gweithgareddau casglu arian yn cael eu hysbysebu ar dudalen Facebook y Cylch.

Rheolir y Cylch gan Bwyllgor Rheoli o wirfoddolwyr. Mae'n cynnwys rheini plant sy'n mynychu y Cylch, a chroesawir aelodau newydd. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynnal y Cylch, gan gynnwys rheoli a phenodi staff, gweithredu polisïau a rheoli materion ariannol, llywodraethol a chodi arian. Mae gan rai aelodau'r Pwyllgor ddyletswyddau penodol, ac mae eraill yn cyfrannu'n gyffredinol. Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn Pwyllgor yn gyfarfod cyhoeddus sy'n agored i bawb, ac rydym yn annog rhieni i gefnogi.

Mae Cyfarfodydd Codi Arian hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd mewn amgylchedd hamddenol. Gwahoddir rhieni ac aelodau'r gymuned i fynd a chyfrannu trwy helpu i drefnu digwyddiadau a dod â syniadau newydd.

Os oes diddordeb gennych i fod yn aelod o'r Pwyllgor Rheoli, neu o'r Pwyllgor Codi Arian cysylltwch â'r cadeirydd neu'r arweinydd.

---

*We request that you make your payments regularly and promptly, since this goes towards the staff wages. If payment is not received within a fortnight we can offer your child's place to another child on the waiting list.*

*We ask you to drop your child off no more than 5 minutes before the start of the session and collect your child promptly at the end of the session.*

*When fundraising activities in aid of the Cylch Meithrin are arranged, any contribution or support from the parents is greatly appreciated. All fundraising activities are advertised on the Cylch's Facebook page.*

*The Cylch is governed by a volunteer management committee made up of parents, and new members are welcome. The Committee is responsible for appointing and managing staff, ensuring regulations are met, financial management, governance and fundraising. Some members of the Committee have specific roles, whilst others give more general contributions. Our Annual General Meeting is an open, public meeting, and we encourage parents to support.*

*Fundraising meetings are also held in a relaxed environment where parents and members of the community are invited to attend and contribute by helping to arrange events and bring new ideas.*

*If you're interested in joining the Management Committee or the Fundraising Committee please contact the chair or Cylch leader.*

# TREFN CANMOL A CHWYNO / *COMPLIMENTS & COMPLAINTS PROCEDURE*

Croesawn eich sylwadau ar ein gwasanaeth er mwyn i ni ei wella. Byddwch yn dosbarthu holiadur ar-lein ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd a gofynnwn i chi ei lenwi. Os ydych yn anhapus gyda unrhyw agwedd o'r gwasanaeth cysylltwch â'r canlynol:

| | |
|---|---|
| **1. Arweinwydd y Cylch** | Anneka Williams |
| **2. Is-Arweiyndd y Cylch** | Samantha Roberts |
| **3. Pwyllgor** | Catrin Elis (Cadeirydd)<br>Jessica Roberts (Ysgrifenyddes)<br>Charles Roberts / Emily Evans (Trysorydd) |
| **4. Corff Rheolaethol – Arolygaeth Gofal Cymru (AGC)** | Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>Sir Conwy<br>LL31 9RZ<br>0300 7900 126<br>ciw@gov.wales |

Neu edrychwch ar ein polisi cwyno am ragor o wybodaeth, mae y ffeil polisïau ar gael yn y Caban neu ar ein gwefan i rieni ei ddarllen.





*We welcome your comments on our service at any time so that we can improve if necessary. We will issue evaluation forms every term for you to complete and return. If you are unhappy with any aspect of our service please make a complaint to the following:*

| | |
|---|---|
| ***1. Cylch Leader*** | *Anneka Williams* |
| ***2. Deputy Leader*** | *Samantha Roberts* |
| ***3. Committee*** | Catrin Elis (Chair)<br>Jessica Roberts (Secretary)<br>Charles Roberts / Emily Evans (Treasurer) |
| 4. ***Management Body – Care Inspectorate Wales (CIW)*** | *Sarn Mynach*<br>*Llandudno Junction*<br>*Conwy*<br>*LL31 9RZ*<br>*0300 7900 126*<br>*ciw@gov.wales* |

*Or refer to our complaints policy for more details; the policies are available to parents at the Cabin or on the Cylch's website.*

# FFIOEDD / *FEES*

**Bydd ffi o £6 y sesiwn i'r Cylch Meithrin a £8 i Meithrin Mwy. Mae ffi o £20 am y gwasanaeth gofal cofleidiol.**

Byddwn yn anfon anfoneb i chi ar ddiwedd pob mis yn nodi nifer y sesiynau mae eich plentyn wedi ei fynychu a'r swm sy'n ddyledus. Gofynnwn i rieni a gwarchodwyr, yn unol â chyfundrefn y Cylch, dalu'r swm o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn yr anfoneb. Gallwch dalu yn y ffyrdd canlynol:

- Trosglwyddiad banc yn syth i gyfrif banc y Cylch (bydd y manylion banc wedi ei nodi ar yr anfoneb)
- Siec – gofynnwn i chi roi'r siec mewn amlen gydag enw'r plentyn wedi ei nodi ar yr amlen
- Talebau Gofal Plant

**Noder: Ni ellir talu gydag arian parod.**

Os hoffech dalu drwy ddefnyddio talebau gofal plant, gadewch i ni wybod pa ddarparwr yr ydych yn ddefnyddio. Bydd angen i ni gofrestru'r Cylch gyda'r darparwr. A fuasech gystal ag anfon neges e-bost yn cynnwys y wybodaeth i: post@cylchmeithrinfelinheli.org. Byddwch yn derbyn anfoneb trwy law staff y Cylch. Gallwch ddewis derbyn yr anfoneb trwy e-bost. Cysylltwch trwy ddefnyddio'r e-bost uchod os hoffech dderbyn eich anfoneb misol dros e-bost. Os na thelir y ffi o fewn 14 diwrnod, ni allwn warantu lle i'ch plentyn.

Bydd rhaid codi ffi o £10 am bob chwarter awr y bydd y plentyn yn y Cylch Meithrin ar ôl amser cau.

---

***There is a fee of £6 per session for Cylch Meithrin and £8 for Meithrin Mwy. The wrap-around fee is £20.***

*You will receive an invoice at the end of each month noting the number of sessions attended by your child, and the total payment due. As outlined in the application form, we ask that the payment is made within 14 days of receiving the invoice. Fees can be paid by the following means:*

- *Bank transfer to the Cylch's Bank Account (Bank details will be provided on the invoice)*
- *Cheque – we ask you to ensure that the cheques are placed in an envelope with your child's name clearly printed on the envelope*
- *Childcare Vouchers*

***Note: We do not accept cash payments***

*If you wish to pay with Childcare vouchers, please let us know your current provider so that we can register y Cylch with the provider. In order to do this please email at:* post@cylchmeithrinfelinheli.org. *The invoices will be handed out by members of staff. If you would prefer the invoice via email, please contact using the above email address. We cannot ensure a place for your child at Cylch Meithrin if payments are not made within 14 days.*

***A fee of £10 will be charged for every quarter of an hour your child is here after we have closed.***

## ABSENODLEB / *ABSENCES*

Yn ystod cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch byr-dymor neu wyliau, disgwylir i rieni dalu ffi o £6/£8/£20 y sesiwn. Mewn achos o absenoldeb tymor-hir oherwydd salwch ystyrir bob cais yn unigol.

*During a period of short-term illness or holidays parents are expected to pay the £6/£8/£20 fee. If absence is caused by a long-term illness each application is given individual attention.*

## MEWN ARGYFWNG / *IN AN EMERGENCY*

Os bydd eich plentyn angen sylw mewn argyfwng, fe fyddwn yn cysylltu â chi ar unwaith. Sicrhewch bod eich manylion cyswllt yn gywir bob amser. Os fydd angen triniaeth feddygol ar eich plentyn byddwn yn gweithredu yn unol â'r caniatâd a roddir gennych pan arwyddwyd ffurflen gofrestru eich plentyn. Os bydd angen, byddwn yn cysylltu â'r heddlu neu gwasanaethau brys.

*Should your child need emergency attention we will contact you immediately. Please ensure that your contact details are kept up to date at all times. If your child needs medical treatment we will follow instructions in the permissions form provided by you when you register your child. If required, we will contact police or emergency services.*

## GDPR

Mae'r data personol y mae Cylch Meithrin Y Felinheli yn ei gasglu yn angenrheidiol er mwyn ein galluogi ni i ofalu am blant sy'n mynychu'r Cylch. Ni chaiff eich data ei rannu ag unrhyw drydydd parti eraill. Mae gwybodaeth am ein polisi preifatrwydd, cyfrinachedd a diogelu data i'w weld ar wefan y Cylch. Yn ddibynnol ar ei natur, bydd y data personol yn cael ei gadw am uchafswm o 25 mlynedd, yn unol â gofynion AGC. Wedi'r cyfnod hyn bydd yr wybodaeth yn cael ei dinistrio yn ddiogel.

*The personal data collected by Cylch Meithrin Y Felinheli is essential to ensure we can provide adequate care for the children attending the Cylch. Your data will not be shared with any third party. Information about our privacy policy and data protection can be seen on the Cylch's website. Depending on its nature, the personal data will be kept for a maximum of 25 years, in line with CIW requirements. The data will then be destroyed safely.*

## POLISÏAU / *POLICIES*

Mae'r holl bolisïau i'w gweld ar ein gwefan neu gallwch ofyn i weld copïau caled yn y Caban. Rydym yn eich annog i'w darllen i gael mwy o wybodaeth am yr holl bynciau uchod a mwy.

*All our policies are available to see on our website or you read them at the Caban. We encourage you to read them to fid out more about all the above subjects and more.*

## CYSYLLTU / *CONTACT*

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw beth. Edrychwn ymlaen yn fawr i groesawu eich plentyn i'n Cylch!
*Please contact us to discuss anything further. We look forward to welcoming your child to the Cylch!*